Babwshca: y ganrif gyntaf

Y wraig a gollodd y ffordd

Dyfalbarhad / colli cyfle / cadw at eich gair

Ydych chi'n cofio ym mha dref y cafodd Iesu Grist ei eni? Ie, dyna chi, ym Methlehem. Mae'n stori ni yn mynd â ni ymhell, bell o Fethlehem. Mae'r stori yn mynd â ni i wlad oer iawn. Yn y wlad oer, oer roedd hen wreigan o'r enw Babwshca'n byw.

Hen wraig, hen, hen oedd Babwshca. Roedd hi'n byw mewn bwthyn ar gwr y goedwig. Roedd hi'n noson oer iawn a'r eira'n lluwchio'r tu allan.

"Diolch byth, does dim rhaid i mi fynd allan heno a hithau'n bwrw eira," meddai Babwshca. Closiodd at y tân i gynhesu. Yn sydyn clywodd gnoc ar y drws.

"Pwy sydd yna ar noson oer fel hon?" meddyliodd. Cerddodd yn araf at y drws a'i channwyll ynghynn. Pan agorodd y drws, gwelodd dri gŵr mewn dillad lliwgar yn sefyll yn yr eira. Yn eu dwylo roedd anrhegion gwerthfawr.

"Melchior ydw i," meddai'r dyn tywyll ei groen, "ac mi rydw i'n mynd ag aur i'r baban sydd wedi ei eni ym Methlehem. Ddoi di efo ni i weld y babi bach, Babwshca?" Ysgydwodd yr hen wraig ei phen. "Na, dim heno."

"Balthasar ydw i," meddai'r ail. Roedd ef yn cario blwch o bersawr drud. "Ddoi di efo ni, Babwshca, i weld y babi bach ym Methlehem dref?"

"Na," oedd yr ateb y tro hwn hefyd.

"Caspar ydw i," meddai'r trydydd gŵr. "Rydw innau hefyd yn mynd i Fethlehem i weld y babi bach sydd wedi ei eni yno. Mae gen innau anrheg drud i'r babi bach. Ddoi di, Babwshca?"

"Na" oedd yr ateb unwaith eto.

"Fedra i ddim dod, rydw i'n rhy hen ac mae hi'n oer iawn, iawn heno. Aeth yn ôl i'r tŷ ac eistedd wrth y tân. Dyma hi'n dechrau meddwl am yr hyn roedd y tri gŵr wedi ei ddweud wrthi. Meddyliodd am y seren oedd wedi eu harwain at y babi bach ym Methlehem.

"Bore fory," meddai wrthi'i hun, "mi af i chwilio am y babi bach. Mi fydd y tywydd wedi gwella, mae'n siŵr, ac fe fydd yn olau dydd."

Casglodd deganau oedd yn y tŷ a llenwodd ei basged. Ar ôl i'r wawr dorri, cychwynnodd Babwshca drwy'r eira i chwilio am y babi bach. Ond doedd yna ddim seren i'w harwain at grud y babi bach. Roedd hi hefyd wedi anghofio gofyn y ffordd i Fethlehem. Bu'n chwilio a chwilio drwy'r dydd. Bu'n chwilio am ddyddiau. Ond wnaeth hi ddim cyrraedd Bethlehem.

Maen nhw'n dweud fod Babwshca'n dal i chwilio am y babi bach. Bob Nadolig mae hi'n gadael anrheg bychan wrth ddrws y tai rhag ofn bod y babi bach yno. Mae hi'n dal i chwilio am fabi bach Bethlehem.

"Daliwch ar eich cyfle..."
Effesiaid 5:16

Tybed, fydda i'n colli cyfle weithiau?
Colli cyfle i wneud cymwynas i rywun arall.
Colli cyfle i helpu rhywun arall.
Helpa fi, O Dduw, i ddefnyddio fy mywyd
i helpu pobl eraill.
Amen.

Pa mor hawdd ydi colli cyfle?

Babwshca: y ganrif gyntaf